

Dreigiau Doeth

Mae Dreigiau Doeth Ysgol Tregarth yn edrych yn bwysig iawn yn eu gwisgoedd coch llachar newydd. Ers wythnosau mae Dreigiau Doeth y Cyfnod Sylfaen a chyfnod Allweddol 2 wedi bod wrthi'n brysur yn cynllunio a chwarae gemau amrywiol ar yr iard. Fel rhan o gynllun Siarter Iaith, swyddogaeth y Dreigiau Doeth yw hybu ac annog eraill i chwarae yn y Gymraeg. Gan eu bod yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn siacedi a hetiau bendigedig i'r Dreigiau wisgo ar yr iard.

Diolch

Mae disgyblion dosbarth Llywelyn wedi bod yn dysgu am y gofod dros yr hanner tymor diwethaf. Fe ddaeth Mr Derek Roberts draw at ddosbarth Llywelyn ychydig o wythnosau yn ôl i ateb cwestiynau'r disgyblion am y gofod ac arddangos ei deulgop a'i lyfrau am y sêr. Cafodd y disgyblion amser ffantastig gyda Mr Roberts wrth iddynt arsylwi ar y telesgop anhygoel a dysgu ffeithiau diddorol. Hoffem ddiolch o galon i Mr Roberts am ddod draw atom, gobeithio y dowch yn ôl yn fuan.

Tre'r Ceiri

Dydd Gwener, Ebrill 15ed mentrodd disgyblion dewr dosbarth Ffrydlas i ben Tre'r Ceiri. Cawsom gwmi yr archaeolegydd Anita Daimond a'n harweiniodd gan ein dysgu am yr olion hynafol. Cafwyd amryw o dasgau i'w cwblhau ar y copa a'r plant wedi gwirioni. Er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn, cafwyd diwrnod arbennig a'r plant yn cael cyfle i ymweld ac un o ryfeddodau Cymru. Ar ddiwedd diwrnod blinedig, dywedodd sawl un y byddai'n ymweliad yn aros yn hir yn eu cof.

Ymweliad â Chastell Caernarfon

Fel rhan o thema'r dosbarth ar gestyll aeth Dosbarth Idwal ar ymweliad â Chastell Caernarfon. Roedd yn gyfle i weld nifer o nodweddion castell ac roedd pawb wedi gwirioni o weld y tŵr, baneri'r ddraig goch yn chwifio a'r waliau uchel. Cafwyd prynhawn bendigedig ac mae'r ymweliad wedi ein helpu gyda'n gwaith yn y dosbarth.



Ymweliad Haf Llewelyn

Cafodd Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 fore gwerth chweil yng nghwmni'r awdures Haf Llewelyn. Roedd y disgyblion wedi mwynhau darllen y llyfrau newydd yn ei chyfres 'Ned y Morwr' ac roedd cael ei chlywed yn darllen ei llyfrau a thrafod y cymeriadau yn brofiad arbennig. Diolch yn fawr iawn i Haf Llewelyn am ddod atom ac mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn eiddgar am fwy o lyfrau yn y gyfres hon.

Dosbarth Tryfan, blwyddyn 3 Mr Walton

Cafwyd diwrnod arbennig ar draeth Llydan, Rhosneigr ar 27/04/16. Fel rhan o'r thema 'y Trochiad Mawr' mae'r plant wedi bod yn dysgu llawer am gynefinoedd amrywiol creaduriaid yn arbennig rhai sydd yn byw o dan y dŵr. Diolch yn fawr i Dawn o ymddiriedolaeth natur Gogledd Cymru am arwain yn diwrnod ac am fod mor hynod wybodus!

